| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymyrraeth** | **Cymunedau Cryf a Gwydn** | | | **Gwyrdd** | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
| | | | | **Oren** | Cynnydd tu ôl o ran bwrw'r targed, ond parhau'n gyraeddadwy |
| **Arwain** | Chris Dawson-Morris / CS Carl Williams | **Cyfnod Adrodd** | Chwarteri 3 a 4 2022-23 | **Coch** | Cynnydd ymhell tu ôl o ran bwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Rhwydweithiau Lles Integredig - lansiwyd porth ar-lein Eich Casnewydd Eich Lles, sy'n hyrwyddo gweithgareddau, rhaglenni a chyfleoedd ledled Casnewydd ac mae wrthi'n cael ei farchnata.

Mae Cydweithredfa Lles Ringland wedi sefydlu Grŵp Gweithredu i fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder cymunedol a'u cydlynu e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol, datblygu'r Ganolfan Iechyd newydd ac ati. Cynhaliwyd digwyddiadau Hwyl i'r Teulu yn ystod hanner tymor mis Hydref a fynychwyd gan 160 o bobl.

Cyflwynwyd dau ddigwyddiad costau byw i dynnu sylw at y cymorth oedd ar gael.

Cwblhawyd y drydedd raglen gyllidebu cyfranogol fawr i gryfhau cymunedau gyda £300k o gyllid partneriaeth wedi'i ddyrannu. Roedd 80 o brosiectau wedi gwneud cais am gyllid gyda 40 o brosiectau llwyddiannus a thros 500 o bobl yn pleidleisio.

Uwchgynllun Pilgwenlli - Mae The Urbanists a Mela Cymru wedi cwblhau cyfres o sgyrsiau gydag ystod o randdeiliaid ym Mhilgwenlli – gan gynnwys Pill Unity, y fforwm busnesau newydd, Cymdeithas Gymunedol Yemenïaidd Casnewydd, a phob sefydliad angor – i sefydlu gweledigaeth y gymuned ar gyfer yr ardal ac i lywio'r uwchgynllun. Y themâu a ddaeth i'r amlwg yw mannau gwyrdd a chyhoeddus, cynnig busnes a siopa gwell, cymysgedd o gyfleusterau cymunedol ac ieuenctid.

Mae cynllun peilot Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn y Betws yn datblygu rhaglen waith gydweithredol gyda theuluoedd â phlant sy'n y blynyddoedd cynnar, fel bo'r ymweliadau â chartrefi gan wasanaethau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol yn unol. Bydd hynny yn arwain at lai o weithwyr proffesiynol yn ymweld a gweithiwr allweddol yn cydlynu gwasanaethau, gydag asiantaethau'n rhannu cofnodion, a chyfarfodydd cydweithredfa rheolaidd am "yr hyn sydd bwysicaf i'r teulu".

## Cynlluniau'r Dyfodol

Ystyried gweithgarwch yn y dyfodol yng Nghynllun Gweithredu Lleol Casnewydd. Parhau â'r gweithgarwch presennol sydd wedi'i restru isod.

Mae'r Uwchgynllun wedi'i ddrafftio a bydd yn cael ei gymeradwyo gan bartneriaid gweithredol unigol.

Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gwblhau adolygiad o'r gweithgarwch Cyllidebu Cyfranogol. Adnabod cyllid ar gyfer gwaith cyllidebu cyfranogol pellach drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a chysylltiadau â phartneriaid fel Busnes yn y Gymuned.

Prosiect Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar - bydd yr ardal beilot yn y Betws yn ehangu i gynnwys Malpas, gan ehangu'r dull arloesol cyn y cyflwyno arfaethedig i'r ddinas gyfan.

Y cam nesaf yw ehangu i gam 2 ym Metws gyda phlant 4-7 oed, grŵp o 820 o blant (cyn 7 oed). Bydd ehangu ystod oedran peilot cam 1 yn cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd wrth staffio, strategaeth gyfathrebu, cynllun hyfforddi amlasiantaeth, bydwreigiaeth a strategaeth blynyddoedd cynnar ac un system cadw cofnodion ar draws BIP Aneurin Bevan a Chyngor Dinas Casnewydd.

| Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd | Statws (U/C/I) | Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen |
|---|---|---|
| Allgáu digidol yn cyfyngu cyfranogiad y cymunedau yr effeithir arnynt waethaf mewn rhaglenni ymgysylltu ar-lein e.e. cyllidebu cyfranogol<br><br>Risg presenoldeb cyllidebu cyfranogol wyneb yn wyneb isel. | **Isel** | Rhaglen cyllidebu cyfranogol newydd i ddychwelyd i bleidleisio wyneb yn wyneb.<br><br>Lleoliadau derbyniadwy, rhaglen gyhoeddusrwydd. |